Cyllid & Thollau EM

Nodiadau ar GYFLOGAETH

CYNNWYS

Cwblhau eich Tudalennau Cyflogaeth EN1

Rheolau cyffredinol ar drethu incwm cyflogaeth EN1

- Rheolau arbennig EN2

Taliadau arian EN2

Manylion y cyflogwr EN2

Incwm o gyflogaeth EN3

- Arian EN3
- Buddiannau a threuliau EN3
- Asedion a drosglwyddwyd a thaliadau a wnaed ar eich rhan EN4
- Talebau, cardiau credyd a thocynnau EN4
- Llety EN4
- Lwfans milltiroedd gormodol a thaliadau cludo teithiwr EN4
- Buddiannau car a thanwydd car EN4
- Faniau EN5
- Benthyciadau di-log a llog isel EN5
- Yswiriant meddygol neu ddeintyddol preifat EN5
- Buddiannau eraill EN5
- Taliadau treuliau a gafwyd a thaliadau mantoli EN5
- Cyfandaliadau a thaliadau iawndal neu fuddiannau gan gynnwys taliadau a buddiannau o'r fath gan gyn gyflogwr EN6
- Enillion tramor nad ydynt yn drethadwy yn y DU yn y flwyddyn a ddaeth i ben 5 Ebrill 2006 EN6
- Treuliau a dalwyd gennych wrth gyflawni eich swydd EN6
- Costau teithio a chynhaliaeth EN7
- Didyniadau sefydlog ar gyfer treuliau EN7
- Ffioedd proffesiynol a thanysgrifiadau EN8
- Treuliau eraill a lwfansau cyfalaf EN8
- Teithio rhwng eich cartref a'ch gweithle parhaol EN8
- Didyniad Enillion Morwyr EN8
- Treth dramor lle na hawliwyd rhyddhad credyd treth EN8

Benthyciadau Myfyrwyr EN8

- Benthyciadau Myfyrwyr a ad-dalwyd trwy ddidyniad gan y cyflogwr EN8

TAFLENNI CYMORTH

Mae Taflenni Cymorth sy'n rhoi gwybodaeth fanylach am reolau treth penodol ar gyfer cyflogaeth ar gael o'r Llinell Archebu.

- *IR201: Vouchers, credit cards and tokens*
- *IR202: Living accommodation*
- *IR203: Car benefits and car fuel benefits*
- *IR204: Lump sums and compensation payments*
- *IR205: Seafarers' Earnings Deductions*
- *IR206: Capital allowances for employees and office holders*
- *IR207: Non-taxable payments or benefits for employees*
- *IR208: Payslips and coding notices*
- *IR210: Assets provided for private use*
- *IR211: Employment – residence and domicile issues*
- *IR212: Tax equalisation*
- *IR213: Payments in Kind – assets transferred*
- *Booklet 480: Expenses and Benefits A Tax Guide*

Cwblhau eich Tudalennau Cyflogaeth

Defnyddir y gair 'cyflogaeth' yn y Nodiadau hyn i gynnwys swyddi cyfarwyddwyr, swyddi, a phenodiadau asiantaeth yn ogystal â threfniadau gweithwyr syml. Mae 'P11D' yn golygu P11D, P9D neu wybodaeth gyfatebol.

Er bod eich cyflogwr wedi rhoi ffigurau i chi, chi sy'n gyfrifol am yr hyn a rowch ar y Tudalennau Cyflogaeth.

Casglwch ynghyd y deunydd sydd ei angen arnoch, fel:

- eich tystysgrif diwedd blwyddyn (P60) ac unrhyw dystysgrif gadael (P45(rhan 1A)) gan eich cyflogwr sy'n dangos manylion cyflog a threth
- eich Hysbysiadau Cod (P2) ar gyfer 2005-06 a 2006-7
- P11D gan eich cyflogwr yn rhoi manylion unrhyw fuddiannau a threuliau a gawsoch
- manylion unrhyw dreuliau busnes a dalwyd gennych.

Os ydych yn ddeiliad swydd (ond heb fod yn gyfarwyddwr) ac ni chawsoch eich talu unrhyw beth, ond ad-dalwyd y treuliau parod a wariwyd gennych er mwyn cyflawni dyletswyddau eich swydd, nid oes rhaid i chi gwblhau y Tudalennau Cyflogaeth ar gyfer y swydd honno. Eglurwch yn y blwch 'Gwybodaeth Ychwanegol', blwch 23.9 pam eich bod wedi ticio 'Oeddwn' i Gwestiwn 1 ar dudalen 2 eich Ffurflen Dreth ond heb gwblhau y Tudalennau Cyflogaeth.

Os mai un gyflogaeth oedd gennych yn ystod y flwyddyn

Bydd eich P60 yn dangos cyfanswm y cyflog a threth. Mae'n rhaid i'ch cyflogwr roi P60 i chi erbyn 31 Mai 2006 os didynnwyd treth o'ch cyflog yn ystod y flwyddyn.

Os oedd gennych fwy nag un gyflogaeth yn ystod y flwyddyn

Ar yr amod eich bod yn gyflogedig ar 5 Ebrill 2006 a chafodd treth ei didynnu o'ch cyflog yn ystod y flwyddyn yn diweddu 5 Ebrill 2006, bydd eich cyflogwr yn rhoi P60 i chi erbyn 31 Mai 2006. Bydd eich P60 yn dangos cyfanswm y cyflog a'r dreth yn y gyflogaeth honno a gall ddangos cyfanswm y cyflog a'r dreth yn y flwyddyn.

Os ydych wedi newid cyflogaeth yn ystod y flwyddyn ac nid yw'r manylion cyflog a threth ar eich P60 o'ch cyflogaeth flaenorol, neu os oedd mwy nag un gyflogaeth flaenorol, bydd angen i chi gael manylion y cyflog a'r dreth ar gyfer pob cyflogaeth. Gallwch gael y rhain o'ch slipiau cyflog blaenorol (neu o Ran 1A y P45 a roddwyd i chi wrth adael pob swydd).

Os nad oes gennych P60 defnyddiwch eich slipiau cyflog neu P45.

Mae'n rhaid i chi gwblhau copi ar wahân o'r Tudalennau Cyflogaeth ar gyfer pob cyflogaeth rydych wedi derbyn unrhyw incwm ohoni (darllenwch y nodiadau ar flychau 1.8 a 1.11 ar dudalen EN3). Gofynnwch i'r Llinell Archebu neu ewch i **www.hmrc.gov.uk** am gopïau ychwanegol, neu defnyddiwch lungopïau. Rhowch eich enw a'ch cyfeirnod treth ar unrhyw lungopïau.

Rheolau cyffredinol ar drethu incwm cyflogaeth

Mae'n rhaid i chi gynnwys yr holl incwm a gafwyd (neu a gafodd ei drin fel incwm a gafwyd) yn ystod y flwyddyn. Mae'r ffordd y dylai eich incwm gael ei ddatgan yn dibynnu ar p'un a oeddech yn gyfarwyddwr ai peidio yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 5 Ebrill 2006.

Os nad oeddech yn gyfarwyddwr

Dylech gynnwys ym mlychau 1.8 i 1.10 **yr holl** incwm a **gawsoch** yn y flwyddyn dreth 2005-06 fel cyflogai hyd yn oed os oeddech wedi ei ennill mewn blwyddyn dreth gynharach, neu os cawsoch eich talu am waith nad yw wedi ei wneud eto.

SA101 (Nodiadau) (Cymraeg)

Nodiadau ar GYFLOGAETH

Cewch eich trin fel petaech wedi derbyn yr incwm hwn ar y cynharaf o'r canlynol:

- y dyddiad pan wnaed y taliad, neu'r taliad ar gyfrif, **neu**
- y dyddiad y cawsoch yr hawl i gael eich talu.

Mae hyn yn wir hyd yn oed os na chawsoch eich talu tan yn ddiweddarach, neu os na gawsoch unrhyw daliad mewn gwirionedd am eich bod wedi trefnu i'r swm oedd yn ddyledus i chi gael ei gymhwyso mewn rhyw ffordd arall.

Os oeddech yn gyfarwyddwr

Dylech gynnwys ym mlychau 1.8 i 1.10 yr **holl** incwm a **gawsoch** yn 2005-06 gan gwmni roeddech yn gyfarwyddwr arno (gan gynnwys y symiau a gawsoch fel cyflogai), hyd yn oed os oeddech wedi eu hennill mewn blwyddyn dreth gynharach, neu os cawsoch eich talu am waith nad yw wedi ei wneud eto. Dylech hefyd gynnwys unrhyw symiau a oedd yn ddyledus i chi ond sydd wedi cael eu cymhwyso, drwy drefniant, mewn rhyw ffordd arall.

Dylech drin incwm fel petaech wedi ei dderbyn ar y cynharaf o'r canlynol:

- y dyddiad pan wnaed y taliad neu pan wnaed y taliad ar gyfrif, **neu**
- y dyddiad y cawsoch yr hawl i gael eich talu hyd yn oed os na chawsoch eich talu tan yn ddiweddarach, **neu**
- y dyddiad y cawsoch yr hawl i gael taliad ar gyfrif, **neu**
- y dyddiad y cafodd symiau eu credydu i chi yng nghyfrifon neu gofnodion y cwmni, hyd yn oed os nad oeddech yn gallu codi'r arian ar y pryd, **neu**
- y dyddiad y penderfynwyd ar eich enillion ar gyfer cyfnod penodol, oni bai ei fod cyn i'r cyfnod hwnnw ddod i ben. Yn yr achos hwn dylech drin yr enillion fel petaech wedi eu derbyn ar ddiwrnod olaf y cyfnod y maent yn cyfeirio ato.

Os na dderbynioch daliadau (yn cynnwys taliadau cyflogaeth tybiedig – gweler isod), cyfandaliadau, buddiannau neu incwm o unrhyw fath fel cyfarwyddwr, nid oes angen i chi gwblhau y Tudalennau Cyflogaeth ar gyfer y swydd honno fel cyfarwyddwr. Eglurwch yn y blwch 'Gwybodaeth Ychwanegol', blwch 23.9 ar dudalen 10 eich Ffurflen Dreth pam y ticioch 'Oeddwn' i Gwestiwn 1 ar dudalen 2 y Ffurflen Dreth, ond heb gwblhau y Tudalennau Cyflogaeth.

Rheolau arbennig

Taliad cyflogaeth tybiedig

Os ydych yn darparu gwasanaethau i gleientau trwy gwmni neu bartneriaeth, efallai y cawsoch eich trin fel petaech wedi derbyn taliad cyflogaeth tybiedig. Bydd y rheolau dim ond yn gymwys petaech wedi bod yn gyflogai i'ch cleient, oni bai am fodolaeth eich cwmni neu'ch partneriaeth. Caiff y taliad tybiedig ei drin fel incwm y gyflogaeth gyda'r cwmni neu'r bartneriaeth. Dylid ei gynnwys yn y ffigur i'w roi ym mlwch 1.8. Os cawsoch unrhyw incwm arall o gyflogaeth gyda'r un cwmni neu bartneriaeth dylech gofnodi'r swm llawn, gan gynnwys y taliad tybiedig. Dylid cynnwys treth TWE ar y taliad tybiedig yn y ffigur i'w roi ym mlwch 1.11.

Am fwy o wybodaeth ewch i **www.hmrc.gov.uk**

Heb fod yn preswylio neu'n preswylio fel arfer

Darllenwch y nodyn ar gyfer blwch 1.31 ar dudalen EN6 os:

- nad oeddech yn preswylio neu'n preswylio fel arfer yn y DU yn y flwyddyn a ddaeth i ben 5 Ebrill 2005 neu mewn blwyddyn gynharach, ac os cawsoch daliad yn y flwyddyn a ddaeth i ben 5 Ebrill 2006 ar gyfer cyflogaeth a ddaeth i ben yn y flwyddyn gynharach honno, **neu**
- na fyddwch yn preswylio neu'n preswylio fel arfer yn y DU yn y flwyddyn sy'n cychwyn 6 Ebrill 2006 ac os cawsoch daliad yn y flwyddyn a ddaeth i ben 5 Ebrill 2006 ar gyfer cyflogaeth a fydd yn dechrau mewn blwyddyn ddiweddarach.

Gofynnwch y Llinell Archebu am y Tudalennau Di-breswyl ac am *Daflen Gymorth IR211: Employment – residence and domicile issues*. Bydd y rhain yn dweud wrthych pa ffigur, os o gwbl, i'w roi ym mlwch 1.31 a sut i ymdrin â'r taliadau a gawsoch.

Taliadau arian

Mae'n rhaid i chi nodi ym mlychau 1.8 i 1.10 y swm **cyn** didynnu unrhyw dreuliau rydych am wneud cais ar eu cyfer.

Dylech gynnwys:

- cyflogau, ffioedd, comisiynau, arian goramser, bonws, a thaliadau cytundebol eraill am wasanaethau
- cydnabyddiaeth a thaliadau tebyg a dderbyniwch fel deiliad swydd
- unrhyw daliad cyflogaeth tybiedig yr ystyrir i chi ei dderbyn
- taliadau gan drydydd parti a roddir y taliad fel gwobr am wasanaethau a roddwyd yn y gyflogaeth. Mae enghreifftiau yn cynnwys cildyrnau a rhoddion
- taliadau gwirfoddol a rhoddion a wnaed gan eich cyflogwr neu gan drydydd parti, ar sail eich cyflogaeth. Nid yw rhai rhoddion a roddir i chi i nodi rhyw ddigwyddiad personol, megis priodas, yn drethadwy. Gweler *Taflen Gymorth IR207: Non taxable payments and benefits* am fwy o fanylion
- taliadau a wnaed gan eich cyflogwr neu drydydd parti fel cymhelldal ('taliadau croeso') i ymgymryd â chyflogaeth
- taliadau nad ydynt yn uniongyrchol am wasanaethau a gyflawnwyd ond sydd â chysylltiad uniongyrchol â'ch cyflogaeth. Er enghraifft, taliad a wnaed yn unswydd i gydnabod newidiadau yn eich amodau gwasanaeth neu gyflogaeth
- cyfandaliadau yn hytrach na thaliadau mewn symiau wythnosol neu fisol, a delir yn lle'r hawl i incwm o'r gyflogaeth, neu a delir fel anogaeth i barhau mewn cyflogaeth
- swm gros unrhyw wobr anogaeth a gafwyd ac a ddangosir ar ffurflen P443 (dylech gynnwys unrhyw dreth y cyfrifwyd amdani ym mlwch 1.11)
- tâl salwch
- Tâl Salwch Statudol, Tâl Mamolaeth Statudol, Tâl Tadolaeth Statudol a Thâl Mabwysiadu Statudol, a dalwyd gan eich cyflogwr
- taliad am ddyletswyddau a gyflawnwyd tra'n gweithio i asiantaeth
- taliad gan ymddiriedolwyr cynllun rhannu elw a gymeradwywyd
- incwm o gynlluniau cydnabyddiaeth a ohiriwyd
- taliadau a gewch am gytuno i gyfyngu ar eich gweithgareddau, er enghraifft, drwy gytuno i beidio â chystadlu gyda busnes eich cyn gyflogwr
- benthyciad sy'n cael ei ddileu neu ei ganslo gan eich cyflogwr, neu berson arall yn ystod y flwyddyn, os cawsoch y benthyciad ar sail eich cyflogaeth, neu os digwyddodd y dileu neu'r canslo am eich bod wedi bodloni neu wedi cwblhau rhyw amod o ran cyflogaeth.

Peidiwch â chynnwys:

- buddiannau a thaliadau treuliau a gafwyd – mae'r rhain yn mynd ym mlychau 1.12 i 1.23
- cyfandaliadau a dalwyd mewn cysylltiad â therfynu cyflogaeth, ymddeoliad neu farwolaeth – nodwch y rhain ym mlychau 1.27 i 1.29
- Tâl Salwch Statudol, Tâl Mamolaeth Statudol, Tâl Tadolaeth Statudol a Thâl Mabwysiadu Statudol a dalwyd gennym – mae'r rhain yn mynd ym mlwch 11.7 ar dudalen 4 eich Ffurflen Dreth
- manylion am Gredyd Treth Gwaith a ddangosir ar eich P60
- cyfranddaliadau neu fuddiannau mewn cyfranddaliadau a gewch am ddim neu'n rhad, oni bai fod TWE wedi cael ei weithredu – mae'r rhain yn mynd yn y Tudalennau Cynlluniau Cyfranddaliadau
- symiau a gafwyd am drosglwyddo, canslo, rhyddhau, neu mewn cysylltiad â pheidio ag ymarfer, opsiynau cyfranddaliadau oni bai fod TWE wedi'i weithredu – mae'r rhain yn mynd yn y Tudalennau Cynlluniau Cyfranddaliadau.

Nid oes angen i ni wybod dim am:

- cyfraniadau a roddir i gynllun rhoi trwy'r gyflogres
- rhyddhad cyflog sy'n gysylltiedig ag elw a gyfrifir gan eich cyflogwr yn y DU wrth weithio allan eich cyflog at ddibenion treth
- cyfraniadau a delir i gynllun pensiwn eich cyflogwr.

Peidiwch â rhoi'r rhain unrhyw le yn eich Ffurflen Dreth.

Manylion y cyflogwr

blychau 1.1 ac 1.2 Nodwch eich cyfeirnod TWE ac enw eich cyflogwr (a ddangosir ar eich P60 neu Ran 1A o bob P45).

blwch 1.3 Nodwch y dyddiad y dechreuodd eich cyflogaeth, os oedd hwn rhwng 6 Ebrill 2005 a 5 Ebrill 2006.

blwch 1.4 Nodwch y dyddiad y daeth eich cyflogaeth i ben, os oedd hwn rhwng 6 Ebrill 2005 a 5 Ebrill 2006 (cewch hyn o Ran 1A o bob P45).

blwch 1.5 Rhowch gyfeiriad eich cyflogwr.

blwch 1.6 Ticiwch y blwch hwn os oedd y gyflogaeth hon fel cyfarwyddwr.

blwch 1.7 Ticiwch y blwch hwn os oedd y gyflogaeth hon fel cyfarwyddwr cwmni caeëdig. Yn fras, cwmni caeëdig yw cwmni a reolir gan:

- bump neu lai o gyfranogwyr, **neu**
- unrhyw nifer o gyfranogwyr sy'n gyfarwyddwyr.

'Cyfranogwyr' yw pobl sydd â chyfran neu fuddiant yn incwm neu gyfalaf y cwmni, fel y cyfranddalwyr a rhai credydwyr benthyciadau.

Os na wyddoch p'un a ydych yn gyfarwyddwr cwmni caeëdig, gofynnwch eich Swyddfa Cyllid a Thollau EM neu ymgynghorydd treth am help.

Incwm o gyflogaeth

Arian

Nodwch yn y blychau priodol, eich cyflog, unrhyw gildwrn ac unrhyw arian arall a gawsoch o'ch cyflogaeth (gweler yr adran 'Taliadau arian' ar dudalen EN2). Os cawsoch daliad mewn cysylltiad â'ch cyflogaeth ac os nad ydych yn siŵr a ddylech ei gynnwys, gofynnwch i ni neu'ch ymgynghorydd treth am arweiniad.

Os newidioch eich swydd neu os cawsoch fwy nag un swydd ar yr un pryd, dylech gwblhau Tudalennau Cyflogaeth ar wahân ar gyfer pob un.

blwch 1.8 Nodwch ym mlwch 1.8 eich c**yflog net ar ôl blwydd-dâl** a nodwyd ar eich P60 (neu slipiau cyflog neu P45 (Rhan 1A)) gan eich cyflogwr. Efallai y bydd angen i chi gyfeirio at rai ohonynt neu at bob un yn dibynnu ar eich amgylchiadau. Os ydych yn ansicr ynglŷn ag unrhyw ffigurau cyflog, gofynnwch i'r Llinell Archebu am Daflen Gymorth *IR208: Payslips and coding notices.*

Bydd eich P60 yn dangos ffigurau ar gyfer cyflog a threth o'r gyflogaeth a oedd gennych ar 5 Ebrill 2006. Os oedd gennych fwy nag un swydd neu os oeddech yn ddi-waith yn y flwyddyn hyd at 5 Ebrill 2006 gallai'r ffurflen hefyd gynnwys ail set o fanylion cyflog a threth ar gyfer cyflogaethau blaenorol ac unrhyw Lwfans Ceisio Gwaith a gawsoch.

Ychwanegir y rhain at ei gilydd yn y ffigurau ar eich P60, felly bydd angen i chi gyfeirio at gofnodion eraill (fel slipiau cyflog, P45 (Rhan 1A) neu ddatganiadau o fudd-daliadau trethadwy y Wladwriaeth) er mwyn gweithio allan:

- y ffigurau ar gyfer cyflog o'r cyflogaethau cynharach i'w rhoi yn y Tudalennau Cyflogaeth ar wahân (un set ar gyfer pob cyflogaeth), **a**
- y ffigurau ar gyfer Lwfans Ceisio Gwaith i'w rhoi ym mlwch 11.5 yn eich Ffurflen Dreth. Gwnewch yn siŵr nad ydych yn cynnwys ffigurau ar gyfer Lwfans Ceisio Gwaith yn eich Tudalennau Cyflogaeth. Os cawsoch gyfandaliad y dylech ei roi ym mlychau 1.24 i 1.29 (er enghraifft, taliad colli gwaith) **a** chafodd y taliad ei drethu gan eich cyn gyflogwr a'i gynnwys yn eich P.45 (Rhan 1A), gwnewch yn siŵr eich bod yn ei ddidynnu o'r ffigur ym mlwch 1.8.

Os ydych yn defnyddio cwmni cyfyngedig neu bartneriaeth i ddarparu eich gwasanaethau i'ch cleientau ac fe ystyrir eich bod wedi derbyn taliad cyflogaeth tybiedig, dylech sicrhau eich bod yn cynnwys y taliad, ynghyd ag unrhyw incwm arall o gyflogaeth gyda'r un cwmni neu bartneriaeth, yn y ffigur i'w gynnwys ym mlwch 1.8.

Os didynnwyd neu os talwyd treth mewn gwlad arall, gall eich cyflogwr roi tystysgrif cyflog i chi nad yw'n dangos blwyddyn yn diweddu 5 Ebrill. Er enghraifft gallai cyflogwr sy'n preswylio yng Ngweriniaeth Iwerddon roi tystysgrif am y flwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr. Defnyddiwch eich slipiau cyflog er mwyn eich helpu i gyfrifo'r cyflog a nodwch y cyflog a gawsoch yn y flwyddyn a ddaeth i ben 5 Ebrill 2006.

blwch 1.9 Nodwch ym mlwch 1.9 unrhyw gildwrn na chafodd ei gynnwys ar eich P60 (neu slipiau cyflog neu P45 (Rhan 1A)).

blwch 1.10 Nodwch ym mlwch 1.10 unrhyw daliadau ariannol eraill na chafodd eu cynnwys ar eich P60 (neu slipiau cyflog neu P45 (Rhan 1A)).

blwch 1.11 Nodwch ym mlwch 1.11 unrhyw dreth a ddidynnwyd o'r symiau ym mlychau 1.8 i 1.10 a gynhwyswyd ar eich P60 (neu slipiau cyflog neu P45(Rhan 1A). Os ydych yn ansicr ynglŷn â ffigurau treth, gofynnwch i'r Llinell Archebu am *Daflen Gymorth IR208: Payslips and coding notices*. Peidiwch â chynnwys unrhyw dreth dramor a dalwyd yn y blwch hwn. Os didynnwyd neu os talwyd treth mewn gwlad arall, darllenwch y nodyn ar gyfer blwch 1.38 ar dudalen EN8. Os bydd eich P45 (Rhan 1A) neu P60 yn dangos treth a ad-dalwyd ar gyfer y gyflogaeth hon, nodwch y swm mewn cromfachau.

Os ar ôl gadael cyflogaeth cawsoch ad-daliad treth gennym ni neu Asiantaeth Budd-daliadau'r Adran Gwaith a Phensiynau, nodwch ym mlwch 1.11 y ffigur treth a ddangosir ar y P45 (Rhan 1A) a roddwyd i chi pan adawsoch y gyflogaeth honno. Nodwch y swm a ad-dalwyd ym mlwch 20.1 ar dudalen 9 eich Ffurflen Dreth. Defnyddiwch ffigur y P60 neu'r P45 ar gyfer blwch 1.11 hyd yn oed os ydych wedi gwneud addasiad ym mlwch 1.8 am fod angen i chi gwblhau blychau 1.24 i 1.29.

Os ydych wedi cynnwys taliad cyflogaeth tybiedig ym mlwch 1.8, dylech gynnwys y dreth TWE, ynghyd ag unrhyw dreth arall a ddidynnwyd ym mlwch 1.11.

Buddiannau a threuliau

Rheolau cyffredinol ar flychau 1.12 i 1.23

Mae blychau 1.12 i 1.15 yn gymwys i bawb.

Dylech eu cwblhau fel y bo'n briodol. Gweler y nodiadau ar dudalen EN4.

Mae blychau 1.16 i 1.23 ond yn gymwys i chi:

- os oeddech yn gyfarwyddwr, **neu**
- os oedd enillion eich cyflogaeth ar gyfradd o £8,500 y flwyddyn neu fwy (gan gynnwys buddiannau a threuliau).

Os yw blychau 1.16 i 1.23 yn gymwys i chi, nodwch swm trethadwy unrhyw fudd neu draul ar sail y gyflogaeth yn yn blwch priodol. Gelwir swm trethadwy buddiant yn 'gyfwerth mewn arian'. Bydd hwn ar y P11D, y dylai'ch cyflogwr fod wedi ei roi i chi (gweler isod).

Cofiwch, gall y buddiannau a gewch gynnwys:

- benthyciadau di-log neu log isel a ddarperir i aelodau'r teulu, **ac**
- unrhyw fuddiannau eraill, a ddarperir i aelodau eich teulu neu'ch aelwyd.

Dim ond y symiau nad ydych wedi'u cynnwys yn rhywle arall y dylech eu nodi ym mlychau 1.16 i 1.23.

Mae gan rai o'r termau a ddefnyddir uchod ystyr arbennig at ddibenion treth. Er enghraifft, 'ar gyfradd sy'n llai na £8,500 y flwyddyn neu fwy', 'aelodau'r teulu', 'aelodau o'ch teulu neu'ch aelwyd', a 'chyfarwyddwr'. Mae fwy o wybodaeth ynglŷn â hyn ar gael yn llyfryn 480, *Expenses and Benefits. A Tax Guide* sydd ar gael o'r Llinell Archebu. Mae'r llyfryn 480 hyn yn cynnwys help arall ar fuddiannau a threuliau.

Ffurflen P11D

Mae'n ofynnol ar eich cyflogwr anfon y manylion canlynol atom:

- pob buddiant trethadwy a ddarperir i chi oherwydd eich cyflogaeth, **a**
- treuliau trethadwy a dalwyd i chi.

Darperir y manylion ar y P11D. Mae'n rhaid i'ch cyflogwr roi copi o'r ffurflen hon i chi (neu'r wybodaeth sydd ynddi) erbyn 6 Gorffennaf 2006. Ond, er bod eich cyflogwr wedi rhoi'r ffigurau hyn i chi, chi sy'n gyfrifol am yr hyn a nodwch ar eich Tudalennau Cyflogaeth.

Nodiadau ar GYFLOGAETH

Ni fydd y manylion a gewch yn cynnwys unrhyw eitemau y mae gan eich cyflogwr **oddefeb** ar eu cyfer neu mae'n gwneud **cytundeb setliad TWE** ar eu cyfer. Nid oes angen i chi ddweud wrthym am yr eitemau hyn.

Mae **goddefeb** yn drefniant y gallai eich cyflogwr fod wedi ei wneud â ni. Mae'n eich arbed chi rhag cynnwys taliad buddiant neu dreuliau a gafwyd gan eich cyflogwr fel incwm ac yna yn eich arbed rhag gorfod gwneud cais cyfatebol ar gyfer y treuliau caniatáol a dalwyd gennych.

Mae **cytundeb setliad TWE** yn drefniant lle y gall eich cyflogwr setlo eich rhwymedigaeth Treth Incwm ar fân fuddiannau mewn nwyddau a thaliadau treuliau.

Os oes gennych unrhyw amheuaeth a yw unrhyw oddefeb neu gytundeb setliad TWE yn gymwys i chi, efallai y gallai eich cyflogwr helpu. Efallai y gwelwch hefyd nad yw'r manylion a gewch gan eich cyflogwr yn cynnwys rhai eitemau y credwch y byddai angen eu datgan fel buddiannau. Mae'n debyg mai'r rheswm am hyn yw bod yr eitemau wedi'u heithrio rhag treth naill ai yn ôl y gyfraith, neu drwy rinwedd consesiwn all-statudol. Os oes gennych unrhyw amheuaeth ynglŷn ag unrhyw eitemau gofynnwch i'r Llinell Archebu am *Daflen Gymorth IR207: Non-taxable payments or benefits for employees*.

- Asedion a drosglwyddwyd a thaliadau a wnaed ar eich rhan

blwch 1.12 Mae'r taliadau a'r taliadau mewn nwyddau y dylech eu nodi ym mlwch 1.12 yn disgyn yn fras i ddau gategori.

Asedion a drosglwyddwyd gan gyflogwr

Os bydd cyflogwr yn rhoi rhywbeth i chi, fel set deledu, y gellir ei gwerthu, dylech gynnwys y swm y gellid ei gwerthu, (hynny yw, ei gwerth yn ail law) hyd yn oed os na fyddwch mewn gwirionedd yn ei werthu.

Os oeddech yn gyfarwyddwr neu'n gyflogai, oni bai fod enillion eich cyflogaeth ar gyfradd sy'n llai na £8,500 y flwyddyn (gan cynnwys buddiannau a threuliau) gallai'r gwerth i'w ddefnyddio fel taliad mewn nwyddau fod yn fwy na'i werth ail law. Enghraifft o hyn fyddai eich cyflogwr yn rhoi neu'n gwerthu eitem nas defnyddiwyd o'r stoc i chi. Os felly, dylai'r ffigur ar eich P11D fod y mwyaf o gost yr eitem i'ch cyflogwr a'i werth ail law, *llai* yn y naill achos neu'r llall y swm a dalwyd gennych (os o gwbl) amdani. Rhowch y ffigur (uwch) hwn ym mlwch 1.12. Am wybodaeth ar achosion neilltuol eraill lle gall y ffigur ar y P11D fod yn uwch na'r gwerth ail law gweler *Taflen Gymorth IR213: Payments in kind – assests transferred*, sydd ar gael o'r Llinell Archebu.

Mae unrhyw beth (heblaw car, yr ymdriniwyd ag ef ym mlychau 1.16 a 1.17) y gallwch roi'r gorau iddo ar unwaith neu ar fyr rybudd yn gyfnewid am gyflog arian uwch hefyd yn daliad mewn nwyddau (er enghraifft, bwyd a llety), a dylech nodi'r arian cyfatebol ym mlwch 1.12 fel taliad mewn nwyddau. Pan fo'n bosibl rhoi'r gorau i lety, mae *Taflen Gymorth IR202: Living accommodation* yn esbonio sut i gyfrifo'r ffigur i'w nodi ym mlwch 1.12.

Taliad a wnaed ar eich rhan gan y cyflogwr

Gallai eich cyflogwr dalu taliad, y dylech chi ei dalu, ar eich rhan. Dylai hwn gael ei ddangos ar eich P11D. Er enghraifft:

- eich rhent yn uniongyrchol i'ch landlord
- bil eich cerdyn credyd personol yn uniongyrchol i'r cwmni cardiau credyd
- eich treth.

Nodwch unrhyw daliadau o'r math hyn ym mlwch 1.12.

Treth TWE a dalwyd gan gyflogwr, na chaiff ei dwyn mewn gwirionedd gennych chi

Os cewch dâl ar ffurf nad yw'n arian parod, neu gan gyfryngwr, gallai eich cyflogwr dalu treth o dan TWE ar eich rhan. Os bydd y dreth o dan TWE yn fwy nag unrhyw daliad ariannol sy'n ddyledus i chi am y cyfnod cyflog hwnnw, ni all eich cyflogwr ddidynnu'r holl dreth sy'n ddyledus ar yr eitemau anariannol o'ch cyflog. Os bydd hyn yn digwydd, ac os nad ydych yn rhoi cyfrif am y dreth TWE i'ch cyflogwr o fewn 90 diwrnod o dderbyn y cyflog, dylech gynnwys swm y dreth a dalwyd gan eich cyflogwr ym mlwch 1.12. Mae'r ffigur ar gael ar y P11D.

- Talebau, cardiau credyd a thocynnau

blwch 1.13 Mae eich incwm o gyflogaeth yn cynnwys gwerth:

- unrhyw dalebau, **ac**
- unrhyw nwyddau neu wasanaethau a gafwyd gyda cherdyn credyd neu docyn credyd, rydych chi (neu eich teulu neu eich aelwyd) yn ei gael ar sail eich cyflogaeth.

Dylai eich cyflogwr fod wedi rhoi ffigur i chi ar gyfer y gwerth. Os ydych am wirio'r ffigurau neu eu gweithio allan eich hun, gofynnwch i'r Llinell Archebu am *Daflen Gymorth IR201: Vouchers, credit cards and tokens*. Mae hon yn dweud wrthych pa dalebau nad ydynt yn drethadwy.

Os defnyddioch y talebau neu'r cerdyn credyd i dalu unrhyw dreuliau yn eich swydd, nodwch y swm llawn ym mlwch 1.13 a didynnwch y treuliau caniatáol yn y blwch priodol (blychau 1.32 i 1.35) ar ôl darllen y nodiadau ar y blychau hynny.

- Llety

blwch 1.14 Nodwch ym mlwch 1.14 gwerth unrhyw lety y cewch chi (neu eich teulu neu eich aelwyd) ar sail eich cyflogaeth. Dylai eich cyflogwr fod wedi rhoi ffigur i chi am hyn. Os ydych am ei wirio, neu os ydych am fwy o wybodaeth, gofynnwch i'r Llinell Archebu am *Daflen Gymorth IR202: Living accommodation*. Mae'r Daflen Gymorth yn dweud wrthych hefyd pan fydd llety a ddarperir gan eich cyflogwr wedi ei eithrio rhag treth a sut i wneud cais am ddidyniad os caiff rhan o'r llety ei ddefnyddio at ddibenion busnes yn unig.

- Lwfans milltiroedd gormodol a thaliadau cludo teithiwr

blwch 1.15 **Taliadau lwfans milltiroedd:** Os yw eich cyflogwr yn talu lwfans i chi ar gyfer defnyddio eich car, eich fan, eich beic modur neu eich beic eich hun ar gyfer teithiau busnes, gall y swm a gewch fod yn fwy na'r uchafswm y gallwch dderbyn yn rhydd o dreth o dan y rheolau ar gyfer Taliadau Lwfans Milltiroedd Cymeradwy (TLMC).

- Mae'r swm ychwanegol yn elw trethadwy a chaiff ei ddangos ar y ffurflen P11D a roddir i chi gan eich cyflogwr, nodwch hwn ym mlwch 1.15.
- Os yw'r swm a gewch yn llai na swm y TLMC, mae gennych hawl i ryddhad ar y diffyg, a dylech ddangos hwn ym mlwch 1.32 (gweler y nodiadau ar dudalen EN7 am fwy o fanylion).

Taliadau cludo teithiwr: Os yw eich cyflogwr yn talu lwfans i chi am gludo teithwyr ar deithiau busnes, efallai y bydd y swm a gewch yn fwy na'r uchafswm a allwch dderbyn yn rhydd o dreth fel 'taliadau cludo teithiwr'.

- Mae'r swm ychwanegol yn elw trethadwy a chaiff ei ddangos ar y ffurflen P11D a roddir i chi gan eich cyflogwr, nodwch hwn ym mlwch 1.15.
- Os yw'r swm a gewch yn llai na'r uchafswm, nid oes hawl gennych i unrhyw ryddhad ar y diffyg.

Yr uchafswm y gallwch dderbyn yn 2005-06 yw 5c y filltir am bob teithiwr.

Am fwy o wybodaeth ewch i **www.hmrc.gov.uk**

- Buddiannau car a thanwydd car

blychau 1.16 a 1.17 Nodwch ym mlwch 1.16 cyfwerth mewn arian y ceir sydd ar gael i chi (neu i aelodau o'ch teulu neu'ch aelwyd) at ddefnydd preifat. Dylai eich cyflogwr roi ffigur i chi. Fe gewch y ffigur hefyd am fuddiant y tanwydd a ddarperir ar gyfer teithio preifat mewn car sydd ar gael i chi. Nodwch hwn yn mlwch 1.17.

Os ydych am wirio ffigurau eich cyflogwr, gofynnwch i'r Llinell Archebu am *Daflen Gymorth: IR203 Car benefits and car fuel benefits.*

Os ydych yn defnyddio eich car preifat eich hun ar gyfer teithio wrth gyflawni eich dyletswyddau neu deithio i weithle dros dro y mae'n rhaid i chi ei fynychu er mwyn cyflawni eich dyletswyddau, gweler y nodiadau ar flychau 1.15 a 1.32.

Nodwch ym mlwch 1.22 y buddiant am unrhyw yrrwr personol a ddarparwyd ar sail eich cyflogaeth.

- Faniau

blwch 1.18 Nodwch ym mlwch 1.18 gyfanswm cyfwerth mewn arian yr holl faniau a oedd ar gael i chi at ddefnydd preifat. Dylai eich cyflogwr roi ffigur i chi. Os mai dim ond un fan oedd gennych ac os oedd ar gael i chi yn unig drwy'r flwyddyn, y cyfwerth mewn arian yw:

- £500 os cafodd ei chofrestru gyntaf ar neu ar ôl 6 Ebrill 2002, **neu**
- £350 fel arall,

wedi ei ostwng yn y naill achos neu'r llall gan unrhyw daliad y mae'n rhaid i chi ei dalu fel amod gallu ei defnyddio'n breifat.

Os cafodd y fan ei darparu gyntaf i chi yn unig, rhan o'r ffordd drwy'r flwyddyn dreth, neu os peidiodd â chael ei darparu i chi yn unig cyn diwedd y flwyddyn dreth, caiff y tâl safonol ei ostwng yn gyfatebol. Er enghraifft, os mai chi yn unig oedd yn defnyddio'r fan am chwe mis olaf y flwyddyn, nodwch hanner y tâl safonol.

Am fwy o wybodaeth ewch i **www.hmrc.gov.uk**

- Benthyciadau di-log a llog isel

blwch 1.19 Nodwch ym mlwch 1.19 cyfwerth mewn arian unrhyw fenthyciad di-log neu log isel. Peidiwch â nodi swm y cyfalaf a fenthycwyd ym mlwch 1.19. Dylai eich cyflogwr fod wedi rhoi'r wybodaeth hon i chi. Cyfwerth mewn arian y benthyciad yw'r gwahaniaeth (os o gwbl) rhwng swm y llog a dalwyd ar y benthyciad am y flwyddyn a'r swm sy'n daladwy am y flwyddyn honno ar y gyfradd llog swyddogol. Os defnyddir y dull 'manwl gywir' i gyfrifo'r buddiant, dylech ddweud yn y blwch 'Gwybodaeth Ychwanegol', blwch 23.9.

Am fwy o wybodaeth ewch i **www.hmrc.gov.uk**

- Yswiriant meddygol neu ddeintyddol preifat

blwch 1.21 Nodwch ym mlwch 1.21 gyfanswm y cyfwerth mewn arian unrhyw yswiriant meddygol preifat neu yswiriant iechyd arall a gewch ar sail eich cyflogaeth. Dylai eich cyflogwr fod wedi rhoi manylion i chi. Yn gyffredinol bydd hwn yn golygu cost y buddiant i'r person a'i ddarparodd i chi (*llai* unrhyw swm a dalwyd gennych i'r person hwnnw).

- Buddiannau eraill

blwch 1.22 Y buddiannau y sonnir amdanynt ym mlychau 1.12 i 1.21 yw'r rhai mwyaf cyffredin. Nodwch ym mlwch 1.22 gyfanswm y cyfwerth mewn arian unrhyw fuddiannau eraill gan eich cyflogwr nas cynhwyswyd eisoes yn rhywle arall. Bydd y Daflen Waith yn y golofn nesaf yn eich helpu i bennu'r cyfanswm.

Os yw eich cyflogwr wedi gwneud taliadau ar eich rhan i gynllun budd-daliadau ymddeol nas cymeradwywyd, neu os cawsoch daliadau gan gynllun budd-daliadau ymddeol nas cymeradwywyd, peidiwch â nodi'r rhain ym mlwch 1.22. Gweler y nodiadau ar flychau 1.24 i 1.29 ar dudalen EN6.

Cyfwerth mewn arian unrhyw fuddiannau eraill

Pennir y cyfwerth mewn arian mewn sawl ffordd, yn ôl y math o fuddiant.

Asedion (heblaw tir, ceir a faniau) a ddarperir at ddefnydd preifat. Pan fydd yr ased wedi bod ar gael drwy gydol y flwyddyn, bydd y cyfwerth mewn arian fel arfer yn seiliedig ar:

- 20% o'i werth ar y farchnad pan gafodd ei ddefnyddio gyntaf i ddarparu buddiant, **ynghyd â**
- treuliau (heblaw cost ei gaffael) a fyddai wedi cael eu talu oni bai am ddarpariaeth y buddiant.

Ond os yw'r cyfanswm hwnnw yn cynrychioli buddiannau a ddarparwyd ar gyfer mwy nag un gweithiwr, bydd y cyfwerth mewn arian ar gyfer pob un ohonoch yn seiliedig ar gyfran o'r cyfanswm. Caiff y cyfwerth mewn arian ei ostwng gan unrhyw swm a dalwyd i'r darparwr yn gyfnewid am y buddiant. Am fwy o wybodaeth, gofynnwch i ni neu'ch ymgynghorydd treth.

Treth incwm a dalwyd ond nas didynnwyd (ar gyfer cyfarwyddwyr yn unig). Y buddiant yw swm y dreth a dalwyd.

Pob buddiant arall. Y cyfwerth mewn arian yn gyffredinol fydd yr hyn a gostiodd y buddiant i'r person a'i ddarparodd (*llai* unrhyw swm a dalwyd i'r person hwnnw). Ond os yw'r swm hwnnw yn cynrychioli buddiannau a ddarparwyd i fwy nag un gweithiwr, bydd y cyfwerth mewn arian ar gyfer pob un yn seiliedig ar gyfran briodol y swm cyfan. Am fwy o wybodaeth gweler llyfryn 480, *Expenses and Benefits. A Tax Guide* sydd ar gael o'r Llinell Archebu.

Rhai buddiannau cyfranddaliadau

Caiff rhai buddiannau ar ffurf gwarantau (gan gynnwys cyfranddaliadau) a gaffaelwyd am lai na'u gwerth a chyfranddaliadau a dalwyd yn rhannol amdanynt eu dangos ar eich P11D: er enghraifft, gall benthyciad tybiannol godi ar gaffaeliad o'r fath. Nodwch y swm trethadwy ym mlwch 1.22.

Ni ddangosir buddiannau cyfranddaliadau eraill ar eich P11D ac efallai y bydd angen i chi gwblhau'r Tudalennau Cynlluniau Cyfranddaliadau. Darllenwch y nodiadau ar dudalen 6 eich Canllaw i'r Ffurflen Dreth a gofynnwch i'r Llinell Archebu am gopi o'r Tudalennau os bydd eu hangen arnoch.

Pecynnau adleoli

Pan fyddwch yn symud tŷ bydd unrhyw daliadau a gewch gan eich cyflogwr, neu unrhyw nwyddau neu wasanaethau a ddarperir i chi gan eich cyflogwr, yn rhan o'ch enillion trethadwy. Fodd bynnag, os byddwch yn symud tŷ ar gyfer eich swydd ac yn bodloni rhai amodau, bydd £8,000 cyntaf unrhyw help a gewch yn rhydd o dreth.

Wrth gwblhau'r Tudalennau Cyflogaeth, cofiwch:

- bod y terfyn £8,000 yn gymwys i symud tŷ yn ei grynswth ac **nid** yw'n derfyn ar gyfer pob blwyddyn dreth, **ac**
- mae'n ofynnol ar eich cyflogwr ddweud wrthym am unrhyw symiau am dreuliau a buddiannau adleoli sy'n uwch na'r terfyn £8,000.

Dylai eich cyflogwr roi manylion o'r swm i chi i'w gynnwys yn eich ffigur ym mlwch 1.22. Am fwy o wybodaeth ewch i **www.hmrc.gov.uk**

Taflen Waith ar gyfer blwch 1.22

• Taliadau treuliau a buddiannau adleoli cymhwysol		£
• Gwasanaethau a gyflenwyd		£
• Asedion a ddarparwyd at ddefnydd preifat		£
• Tanysgrifiadau a ffioedd proffesiynol		£
• Treth Incwm a dalwyd (ond nas didynnwyd) (cyfarwyddwyr yn unig)		£
• Lleoedd a ddarparwyd mewn meithrinfa (mewn rhai amgylchiadau **nid** yw'r buddiant hwn yn drethadwy – gweler llyfryn 480)		£
• Cymorth addysgol a ddarparwyd (mewn rhai amgylchiadau **nid** yw'r buddiant hwn yn drethadwy – gweler llyfryn 480)		£
• Pob buddiant arall		£
Cyfanswm	A	£

Copïwch y ffigur ym mlwch A i flwch 1.22 yn eich Tudalennau Cyflogaeth.

- Taliadau treuliau a gafwyd a thaliadau mantoli

blwch 1.23 Dylech nodi ym mlwch 1.23 **gyfanswm** y taliadau neu'r ad-daliadau a wnaed i chi ac unrhyw daliadau mantoli.

Nodiadau ar GYFLOGAETH

Taliadau treuliau a gafwyd

Dylai eich cyflogwr roi manylion i chi. Gweler y nodiadau ar flychau 1.32 i 1.35 er mwyn gweld a allwch wneud cais am ddidyniad ar gyfer pob un neu unrhyw un o'r rhain. **Os oes gan eich cyflogwr oddefeb** ar gyfer 2005-06 peidiwch â nodi treuliau a gwmpaswyd ganddi naill ai ym mlwch 1.23 neu ym mlychau 1.32 i 1.35.

Mae taliadau treuliau yn disgyn i dri prif faes:

- **Taliadau teithio a chynhaliaeth**. Nodwch y symiau a gawsoch ar gyfer costau teithio, gwestai, prydau bwyd ac ati, gan gynnwys teithio rhwng eich cartref a'ch lle gwaith parhaol. Peidiwch â chynnwys,
  - taliadau neu ad-daliadau treuliau mewn cysylltiad â **cheir neu faniau cwmni** (er enghraifft, lwfans milltiroedd ar gyfer milltiroedd busnes nad yw'n gwneud mwy na chwrdd â chost y tanwydd a ddefnyddiwyd ar deithiau busnes), **neu**
  - treuliau ar gyfer teithio mewn **car/ceir nas darparwyd gan eich cyflogwr** (gweler y nodyn ar flwch 1.15 ar dudalen EN4).
- **Gwesteia**. Nodwch gyfanswm yr holl symiau a dalwyd i chi, **neu** er eich lles, ar gyfer gwesteia yn unig fel y dangosir ym mlwch 1.23 ffurflen P11D a ddarparwyd gan eich cyflogwr. Dylech gynnwys,
  - pob swm a ad-dalwyd
  - unrhyw lwfansau swm a dalgrynnwyd
  - lwfansau gwesteia penodol
  - unrhyw symiau a dalwyd i drydydd partïon.
- **Lwfans(au) treuliau cyffredinol**. Nodwch swm y lwfans(au).

Nid yw rhai taliadau treuliau yn drethadwy a ni ddylech eu nodi ym mlwch 1.23. Am wybodaeth ynglŷn â thaliadau nad ydynt yn drethadwy gofynnwch y Llinell Archebu am *Daflen Gymorth IR207: Non-taxable payments or benefits for employees.*

Am fwy o wybodaeth ewch i **www.hmrc.gov.uk**

Taliadau mantoli

Os ydych wedi gwaredu ased rydych wedi gwneud cais am lwfansau cyfalaf ar ei gyfer, nodwch unrhyw dâl mantoli ym mlwch 1.23. Os bydd angen manylion arnoch, gofynnwch y Llinell Archebu am *Daflen Gymorth IR206: Capital allowances for employees and office holders*. Ni allwch wneud cais am lwfansau cyfalaf a thaliadau mantoli ar eich cerbyd eich hun ar ôl y flwyddyn dreth 2001-02.

Taflen Waith ar gyfer blwch 1.23

• Taliadau teithio a chynhaliaeth	£
• Gwesteia	£
• Lwfans treuliau cyffredinol ar gyfer teithiau busnes	£
• Taliadau am ddefnyddio ffôn yn y cartref	£
• Treuliau adleoli anghymwysol (y rhai nas cynhwyswyd ym mlwch 1.22)	£
• Treuliau eraill	£
• Taliadau mantoli	£
Cyfanswm	A £

Copïwch y ffigur ym mlwch A i flwch 1.23 yn eich Tudalennau Cyflogaeth.

■ *Cyfandaliadau a thaliadau iawndal neu fuddiannau gan gynnwys taliadau a buddiannau o'r fath gan gyn gyflogwr*

blychau 1.24 i 1.29 Mae rheolau gwahanol yn gymwys i fathau gwahanol o'r taliadau neu'r buddiannau hyn, felly mae'n bwysig defnyddio'r rheolau cywir. Os mai'r cyfan rydych am ei nodi yma yw taliad colli gwaith y caniataodd eich cyflogwr eithriad rhag treth yn ei erbyn hyd at £30,000, gwnewch hyn drwy nodi:

- swm y taliad *llai'r* eithriad ym mlwch 1.29, **a**
- swm yr eithriad ym mlwch 1.24.

Er enghraifft, os oedd eich taliad colli gwaith yn £7,500 byddai'n cael ei gwmpasu gan ryddhad felly gadewch flwch 1.29 yn wag a nodwch £7,500 ym mlwch 1.24. Dim ond cofnod ym mlwch 1.29 a ddefnyddir yn y cyfrifiad treth. Ond os oedd y taliad yn £40,000, nodwch £10,000 ym mlwch 1.29 (£40,000 *llai* uchafswm y rhyddhad o £30,000) a £30,000 ym mlwch 1.24.

Ond mewn unrhyw amgylchiadau eraill, mae'n rhaid i chi gwblhau *Taflen Gymorth IR204: Lump sums and compensation payments*, sydd ar gael o'r Llinell Archebu, cyn cwblhau'r blychau hyn. Yn arbennig dylech gwblhau'r Daflen Gymorth os:

- oedd yr hyn a gawsoch yn cynnwys eitemau megis ôl-gyflog, cyflog gwyliau, taliadau yn lle rhybudd, **neu**
- oedd eitemau anariannol yn rhan o'r setliad, **neu**
- mae'n cynnwys unrhyw ryddhad heblaw'r rhyddhad cyffredinol o £30,000, **neu**
- mae'n cynnwys iawndal heblaw ar gyfer colli gwaith, **neu**
- gwneir rhagor o daliadau neu fuddiannau ar ôl 5 Ebrill 2006 o ganlyniad i derfynu'r un gyflogaeth, **neu**
- rydych wedi cael symiau eraill wrth derfynu cyflogaeth gan yr un cyflogwr neu gan gyflogwr arall sy'n gysylltiedig â'r gyflogaeth honno ar unrhyw adeg, **neu**
- cawsoch gyfandaliad gan gynllun budd-daliadau ymddeol nas cymeradwywyd, **neu**
- cyfrannodd eich cyflogwr i gynllun budd-daliadau ymddeol nas cymeradwywyd.

blwch 1.30 a 1.30A Nodwch y dreth a ddidynnwyd o gyfandaliadau a thaliadau iawndal. Fodd bynnag, os ydych wedi cynnwys y dreth hon yn y ffigur ar gyfer blwch 1.11, dylech adael blwch 1.30 yn wag a rhoi tic ym mlwch 1.30A.

■ *Enillion tramor nad ydynt yn drethadwy yn y DU yn y flwyddyn a ddaeth i ben 2006*

Mewn rhai amgylchiadau efallai na fydd angen i chi gwblhau'r Tudalennau Cyflogaeth. Gweler y nodiadau ar dudalen 6, Cwestiwn 1 yn y Canllaw i'r Ffurflen Dreth a thudalen NRN8 y Nodiadau ar Di-breswyl ac ati.

blwch 1.31 Defnyddiwch *Daflen Gymorth IR211: Employment – residence and domicile issues* er mwyn gweithio allan y ffigur i'w roi ym mlwch 1.31:

- os ydych wedi cwblhau'r Tudalennau Di-breswyl er mwyn gwneud cais am driniaeth ddi-breswyl; di-breswyl fel arfer neu ddi-breswylfan ar gyfer y flwyddyn dreth 2005-06, neu driniaeth flwyddyn ranedig ar gyfer y flwyddyn honno (os nad oeddech yn preswylio am ran o'r flwyddyn), **neu**
- os gwnaethoch gais o'r fath mewn blwyddyn flaenorol, ac rydych wedi cynnwys incwm a enillwyd yn y flwyddyn honno yn y Tudalennau Cyflogaeth, **neu**
- os ydych wedi cynnwys incwm sy'n berthnasol i flwyddyn ddiweddarach ac os credwch y byddwch yn gwneud cais am driniaeth ddi-breswyl, di-breswyl fel arfer neu ddi-breswylfan ar gyfer y flwyddyn ddiweddarach honno, **neu**
- os cawsoch incwm mewn gwlad dramor na allech ei ddwyn i'r DU oherwydd rheolaethau cyfnewid neu brinder arian tramor yn y wlad honno.

Bydd y Daflen Gymorth yn eich helpu i weithio allan y rhan honno o'ch incwm a'ch derbyniadau nad yw'n atebol i Dreth Incwm yn y DU yn y flwyddyn a ddaeth i ben 5 Ebrill 2006. Fodd bynnag, gallai rhwymedigaeth godi, mewn blynyddoedd cynharach neu ddiweddarach, ar gyfer y cyfan neu ran o'r swm hwn. Mae hefyd yn bosibl y gallech fod yn atebol i dreth incwm mewn gwlad arall am y cyfan neu ran o'r swm hwn.

■ *Treuliau a dalwyd gennych wrth gyflawni eich swydd*

Mae'r adran hon yn esbonio'r rheolau ar gyfer:

- costau teithio a chostau eraill yr oedd yn rhaid i chi eu talu wrth wneud eich swydd neu wrth deithio i weithle dros dro, **a**

- threuliau **angenrheidiol** eraill a dalwyd gennych wrth wneud eich gwaith **yn unig**.

Os oes gan eich cyflogwr oddefeb ar gyfer 2005-06 ni ddylech wneud cais am unrhyw dreuliau rydych wedi eu talu os:

- gallwch wneud cais ar eu cyfer yn ôl oddi wrth eich cyflogwr, **a**
- cynhwysir y treuliau mewn goddefeb. Gweler 'Buddiannau a threuliau' ar dudalen EN3.

Os ydych wedi talu gwariant caniataol sy'n fwy na'r swm a gynhwysir yn yr oddefeb gallech wneud cais am ddidyniad ar gyfer y swm ychwanegol.

Os na wyddoch a oes gan eich cyflogwr oddefeb ai peidio, gofynnwch am fanylion.

- Costau teithio a chynhaliaeth

blwch 1.32 Gallwch wneud cais am dreuliau teithio ar deithiau busnes – p'un ai yn y DU neu dramor – yn ogystal â chostau perthnasol am lety a phrydau bwyd.

Teithiau busnes

Mae dau fath o daith sy'n gymwys fel teithiau busnes:

- taith sy'n golygu teithio o un lle gwaith i un arall ar gyfer yr un gyflogaeth. Mae hyn yn cynnwys teithio rhwng gweithle parhaol a gweithle dros dro.
- taith a wnewch i weithle y mae'n rhaid i chi ei fynychu, neu oddi yno er mwyn cyflawni dyletswyddau eich cyflogaeth – ond nid os yw'r daith yn gymudo cyffredin neu'n daith breifat.

Cymudo cyffredin yw teithio rhwng eich cartref, neu unrhyw le arall rydych yn ei fynychu am resymau personol, a gweithle parhaol. Nid oes hawl gennych i ddidyniad ar gyfer cost cymudo cyffredin – neu am daith sydd at ddibenion ymarferol yn gymudo cyffredin i raddau helaeth (yn fras taith i'r un cyfeiriad ac o'r un hyd) ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol. Os nad ydych yn siŵr, gofynnwch i ni neu'ch ymgynghorydd treth. Os na fyddwch eisoes wedi gwneud cais am deithiau rhwng eich cartref a gweithle parhaol dylech gysylltu â ni **cyn** nodi didyniad yma. Mae'r nodiadau isod yn egluro beth yw gweithle parhaol.

Taith breifat yw unrhyw daith lle mae'r daith at ddiben preifat yn hytrach na busnes. Ni fydd hawl gennych i ddidyniad am gost teithio preifat.

Gweithle parhaol yw gweithle rydych yn ei fynychu'n rheolaidd nad yw'n weithle dros dro ac sy'n cynnwys y man sefydlog lle y cyflawnwch eich dyletswyddau neu'r lle y dyrannir y tasgau dyddiol rydych yn eu cyflawni. Nid oes gan rai cyflogeion weithle parhaol ac efallai y bydd gan rai fwy nag un. Nid yw mynychu ail weithle yn achlysurol yn debygol o olygu bod gennych ddau weithle parhaol.

Gweithle dros dro yw gweithle a fynychir gennych i gyflawni tasg gyfyngedig o ran hyd neu at ryw ddiben dros dro arall. Bydd hawl gennych i ddidyniad am gost y teithio rhwng eich cartref a gweithle dros dro y mae'n rhaid i chi ei fynychu er mwyn cyflawni eich dyletswyddau.

Ni fydd gweithle yn weithle dros dro os byddwch yn ei fynychu neu os bydd disgwyl i chi ei fynychu i gyflawni rhan sylweddol o'ch dyletswyddau yno:

- am fwy na 24 mis, **neu**
- am lai na 24 mis os mai hwnnw yw cyfnod cyfan eich cyflogaeth.

Gall teithio fod yn rhan annatod o'ch swydd. Er enghraifft, os ydych yn drafaeliwr heb weithle parhaol sydd fel arfer yn ymweld â sawl lle gwaith bob dydd. Gallwch wneud cais am ddidyniad am dreuliau teithio a chostau cynhaliaeth a llety cysylltiedig a delir wrth wneud eich swydd o'r adeg y gadewch eich cartref. Ond os pennir eich dyletswyddau gan ardal ddaearyddol ac rydych yn byw y tu allan i'r ardal honno, ni allwch wneud cais am ddidyniad am gost y teithio rhwng eich cartref a ffin yr ardal honno. Os ydych yn ansicr, gofynnwch i ni am gyngor.

Treuliau teithio busnes

Os ydych yn talu treuliau teithiau busnes oherwydd eich bod yn defnyddio eich car, neu eich beic modur neu eich beic eich hun ac os yw eich cyflogwr yn talu lwfans i chi, gweler y nodyn ar flwch 1.15 ar dudalen EN4.

Treuliau lwfans milltiroedd

Gallwch dderbyn hyd at y symiau a welir isod, heb yr angen i'w cynnwys ar eich Ffurflen Dreth. Os yw eich cyflogwr yn talu llai na'r uchafswm, neu dim byd o gwbl, gallwch wneud cais am y diffyg. Bydd angen i chi gadw cofnod

- o'ch milltiroedd busnes ar gyfer pob math o gerbyd, **a**
- swm y treuliau lwfans milltiroedd a dderbyniwch

Defnyddiwch y symiau isod:

Math o gerbyd	Cyfradd
Car neu fan	40 ceiniog y filltir am y 10,000 milltir cyntaf
	25 ceiniog y filltir ar ôl hynny
Beic Modur	24 ceiniog y filltir
Beic	20 ceiniog y filltir

Enghraifft

Fe deithioch 16,000 o filltiroedd busnes yn eich car eich hun. Yr uchafswm y gallwch dderbyn yn rhydd o dreth yw

10,000 milltir ar 40 ceiniog	£4,000
6,000 milltir ar 25 ceiniog	£1,500
Cyfanswm	£5,500

Os mai dim ond £3,500 a dderbynioch, gallwch wneud cais am ryddhad ar y diffyg o £2,000 ym mlwch 1.32.

Gwneud cais am ryddhad

Mae rheolau arbennig os ydych yn preswylio ac fel arfer yn preswylio yn y DU ond yn gweithio'n gyfan gwbl neu'n rhannol dramor, neu os ydych yn weithiwr sydd â phreswylfan y tu allan i'r DU sy'n dod i weithio yn y DU. Os bydd angen gwybodaeth arnoch am y rhain, gofynnwch i ni.

Os cawsoch daliadau teithio a chynhaliaeth fel rhan o becyn adleoli, gweler y nodiadau ar flwch 1.22.

Unwaith penderfynwch ar y treuliau rydych am eu hawlio, adiwch ynghyd:

- yr holl gostau teithio caniataol. Os cawsoch unrhyw lwfans milltiroedd, dylech **gynnwys dim ond** y swm y mae'r treuliau caniataol a gawsoch yn uwch na'ch lwfans. Am fwy o wybodaeth ewch i **www.hmrc.gov.uk**
- y costau llety/prydau bwyd a dalwyd ar deithiau busnes
- y treuliau busnes eraill sy'n berthnasol i deithiau busnes (er enghraifft galwadau ffôn busnes a chostau ffacs/llungopïo). Ond nid ydynt yn cynnwys cost eitemau personol fel galwadau ffôn i'ch cartref, papurau newydd dyddiol a golch personol.

Yna:

- nodwch y cyfanswm ym mlwch 1.32, **ac**
- os yw blwch 1.32 **yn cynnwys** treuliau teithio rhwng eich cartref a gweithle parhaol, ticiwch flwch 1.36.

Cadwch gofnod o symiau a dalwyd ac unrhyw dderbynebion/dalebau, rhag ofn y byddwn yn gofyn amdanynt. **Peidiwch** â'u hanfon gyda'ch Ffurflen Dreth.

- Didyniadau sefydlog ar gyfer treuliau

blwch 1.33 Didyniadau sefydlog yw symiau treuliau y cytunwyd arnynt rhwngom ni a'r undebau llafur perthnasol neu gyrff eraill i gwrdd â chost cynnal a chadw neu adnewyddu offer neu ddillad gwaith arbennig. Nodwch y rhain ym mlwch 1.33. Os nad ydych am gael didyniad sefydlog, dylech adael blwch 1.33 yn wag a rhoi cyfanswm y treuliau rydych wedi eu gwario ar yr eitemau hyn a'u cynnwys fel rhan o'ch 'treuliau eraill' ym mlwch 1.35.

Os oedd eich côd treth yn cynnwys addasiad ar gyfer treuliau o flwyddyn gynharach, cysylltwch â ni.

- Ffioedd proffesiynol a thanysgrifiadau

blwch 1.34 Gallai fod hawl gennych i gael didyniad ar gyfer:

- rhai ffioedd y mae'n rhaid i chi eu talu i gyflawni eich proffesiwn, **neu**
- tanysgrifiadau blynyddol i gyrff proffesiynol a gymeradwywyd gennym ac sy'n berthnasol i'ch gwaith.

Gall y corff proffesiynol ddweud wrthych faint all gael ei ddidynnu. Nodwch y swm ym mlwch 1.34.

- Treuliau eraill a lwfansau cyfalaf

blwch 1.35 Dim ond y treuliau angenrheidiol a dalwch wrth gyflawni eich gwaith y gallwch wneud cais amdanynt. Treuliau angenrheidiol yw'r rheini y byddai pob person sy'n gwneud eich swydd yn gorfod eu talu. Mae'n rhaid i'r treuliau gael eu talu wrth gyflawni dyletswyddau'r swydd mewn gwirionedd. Felly er enghraifft, nid yw treuliau sy'n eich rhoi mewn sefyllfa i gyflawni eich swydd, yn hytrach nag wrth berfformio'r swydd, yn ganiataol.

Os oedd eich côd treth yn cynnwys addasiad ar gyfer treuliau o flwyddyn gynharach, cysylltwch â ni.

Treuliau gwesteia – rheolau arbennig ar gyfer cyflogeion busnesau masnachu

Os ydych yn gweithio i fusnes masnachu ni allwch wneud cais am ddidyniad ar gyfer treuliau gwesteia busnes oni bai:

- bod eich cyflogwr wedi rhoi tic yn y blwch yn erbyn 'gwesteia' ar ffurflen P11D (mae 'X' yn y blwch yn erbyn 'gwesteia' yn golygu na ddylech wneud cais am ddidyniad yn eich hunanasesiad ar gyfer gwariant ar westeia busnes), **a**
- cafodd y treuliau gwesteia busnes rydych yn gwneud cais amdanynt eu gwario o reidrwydd wrth gyflawni dyletswyddau eich swydd, **a**
- mae'ch cyflogwr yn talu'r treuliau naill ai drwy eu had-dalu i chi neu drwy dalu lwfans i chi yn benodol ar gyfer gwesteia. Ni ddylai'r didyniad rydych yn ei hawlio fod yn fwy na'r hyn dalwyd i chi gan eich cyflogwr.

Am fwy o wybodaeth ewch i **www.hmrc.gov.uk**

Treuliau eraill

Soniwyd am y rhan fwyaf o'r treuliau y gallwch wneud cais ar eu cyfer ym mlychau 1.32 i 1.34. Yn achlysurol iawn, gallech fod â hawl i gael rhyddhad treth ar gyfer treuliau eraill. Efallai eich bod eisoes wedi cytuno a ni ar eitemau eraill. Os felly, dylech weithio'r treuliau caniataol allan ar y sail gytûn.

Gallech fod a hawl i ryddhad treth am dreuliau a dalwyd gennych chi neu eich cyflogwr ar gyfer:

- eich yswirio yn erbyn ceisiadau sy'n ymwneud â gweithredoedd anghyfiawn gwirioneddol neu honedig a gyflawnwyd gennych fel gweithiwr, **neu**
- costau nas yswiriwyd sy'n codi o weithredoedd gwirioneddol neu honedig o'r fath.

Os nad ydych yn sicr p'un a allwch gael rhyddhad, gofynnwch i ni neu'ch ymgynghorydd treth cyn cwblhau blwch 1.35.

Dylech gynnwys:

- Cost unrhyw alwadau ffôn busnes y gallai fod yn rhaid i chi eu gwneud gan ddefnyddio ffôn yn eich cartref
- unrhyw dreuliau ar gyfer cynnal a chadw offer a dillad arbennig nad ydynt yn sefydlog (hynny yw, nas cynhwyswyd ym mlwch 1.33)
- cyfran fusnes unrhyw fuddiant rydych wedi ei gynnwys yn llawn ym mlwch 1.22.

Lwfansau cyfalaf

Gallai fod hawl gennych i lwfansau cyfalaf ar gyfer cost cyfarpar neu beiriannau a ddefnyddiwch yn eich cyflogaeth. Gofynnwch i'r Llinell Archebu am *Daflen Gymorth IR206: Capital allowances for employees and office holders* am fanylion.

Ni allwch wneud cais am lwfansau cyfalaf ar gyfer car, fan, beic modur neu feic. Ond os byddwch yn defnyddio eich cerbyd eich hun ar gyfer gwaith a nid yw eich cyflogwr wedi eich talu am y milltiroedd busnes, neu y mae wedi talu llai na'r uchafswm sy'n rhydd o dreth, gallwch wneud cais am ddidyniad ar gyfer treuliau lwfans milltiroedd ym mlwch 1.32 – gweler y nodiadau ar dudalen EN7. Mae'r ffigurau a ddefnyddir yn cynnwys swm ar gyfer dibrisiad.

- Teithio rhwng eich cartref a gweithle parhaol

blwch 1.36 Ticiwch flwch 1.36 os yw blwch 1.32 yn cynnwys treuliau teithio rhwng eich cartref a gweithle parhaol.

Didyniad Enillion Morwyr

blwch 1.37 Diffinnir morwr fel 'rhywun sy'n cyflawni dyletswyddau eu cyflogaeth ar long'. Yr ystyr gyffredin sydd i 'long', fodd bynnag ni chaiff 'safleoedd alltraeth' a ddefnyddir yn y diwydiant olew a nwy alltraeth eu hystyried fel 'llongau'. Nid yw gweithwyr ar rigiau symudol, unedau drilio alltraeth symudol gan gynnwys llongau drilio, rigiau sy'n rhannol tanddwr a rigiau jacio yn 'forwyr' ac ni allant wneud cais am y Didyniad.

Os credwch y gallwch wneud cais, gofynnwch i'r Llinell Archebu am *Daflen Gymorth IR205: Foreign Earnings Deduction for Seafarers.*

Treth dramor na wnaed cais am ryddhad credyd treth amdani

blwch 1.38 Er mwyn gwneud cais am ryddhad credyd treth, gofynnwch i'r Llinell Archebu am y Tudalennau Tramor, a gadewch flwch 1.38 yn wag.

Os nad ydych am wneud cais am ryddhad credyd treth, nodwch ym mlwch 1.38 swm unrhyw dreth dramor rydych wedi ei thalu ar eich incwm cyflogaeth.

Benthyciadau Myfyrwyr

Benthyciadau Myfyrwyr a ad-dalwyd trwy ddidyniad gan y cyflogwr

blwch 1.39 Nodwch ym mlwch 1.39 swm unrhyw ad-daliad am Fenthyciad Myfyriwr a ddidynnwyd gan eich cyflogwr ac a gynhwyswyd ar eich P60 neu slipiau cyflog. Ni fydd y P60 yn cynnwys ad-daliadau am Fenthyciad Myfyriwr a ddidynnwyd gan unrhyw gyflogwr blaenorol. Felly, os oedd gennych mwy nag un gyflogaeth yn ystod y flwyddyn, mae'n rhaid i chi ddefnyddio eich slipiau cyflog, yn ogystal â'r P60, i gyfrifo'r ffigurau i'w rhoi ym mlwch 1.39 ar bob set o'r Tudalennau Cyflogaeth a gwblhewch.

blwch 1.39A Ticiwch flwch 1.39A os yw'r gyflogaeth hon yn swydd gymwys at ddibenion Cynllun Ad-dalu Benthyciadau Athrawon ac mae'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr wedi hysbysu eich cyflogwr eich bod wedi eich derbyn i'r Cynllun Ad-dalu Benthyciadau Athrawon.

Canllaw yn unig yw'r nodiadau hyn sy'n adlewyrchu'r sefyllfa ar adeg eu hysgrifennu. Nid ydynt yn effeithio ar unrhyw hawl i apelio.